# ROGERS, JOHN (bu farw 1738), gwerthwr llyfrau ac argraffydd yn Amwythig;

**Enw:** John Rogers
**Dyddiad marw:** 1738
**Rhiant:** Gabriel Rogers
**Rhiant:** Reynold Rogers
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gwerthwr llyfrau ac argraffydd
**Maes gweithgaredd:** Diwydiant a Busnes; Argraffu a Chyhoeddi
**Awdur:** William Llewelyn Davies

Mab Reynold Rogers, groser, Llundain. Efallai ei fod yn fab i Gabriel Rogers (bu farw 1705), a oedd yntau yn werthwr llyfrau yn Amwythig. Dechreuodd argraffu tua 1706, ac y mae'n bosibl mai ei lyfr cyntaf oedd *A Sermon preach'd at the Funeral of ... James Owen, Minister of the Gospel in Shrewsbury. April the 11th, 1706. By Matthew Henry*, 1706?. Yn 1707 cyhoeddodd ddau lyfr Cymraeg : *Egwyddorion y Grefydd Gristianogawl* a *Godidawgrwydd Rhinwedd*, yn 1708 argraffodd almanac - *Cennad oddiwrth y Ser*, ac yn 1714 argraffiad o *Dirgelwch*, sef llyfr mwyaf adnabyddus Morgan Llwyd o Wynedd. Un faled Gymraeg o'i wasg a gofnodir gan J. H. Davies (*Bibliog. of Welsh Ballads*). Ymddengys iddo barhau i argraffu hyd 1729 o leiaf. Bu Nicholas Thomas yn dysgu ei grefft yn swyddfa John Rogers neu yn swyddfa Shôn Rhydderch. Claddwyd un ' John Rogers, Bookseller,' 9 Mai 1738.

## Awdur

**Syr William Llewelyn Davies**, (1887 - 1952)

## Ffynonellau


At y ffynhonnell a nodwyd ychwaneger Llewelyn C. Lloyd, 'The Book-Trade in Shropshire,' yn *Transactions of the Shropshire Archaeological and Natural History Society*, 1935 a 1936 (lle y ceir llawer o fanylion am wahanol aelodau teuluoedd o'r cyfenw Rogers)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20804730


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu